**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH DYSGU A GWELLA A**
**PHENNAETH PARTNERIAETH A CHYNHWYSIANT)**

Cofnodion cyfarfod Arbennig Panel Penodiadau a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Gwener 11 Mai 2007 am 2.00p.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr J Chamberlain Jones, S A Davies, N Hugh-Jones ac M M Jones, Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Personél (L Jones) a Chlerc y Sir ynghyd ag L Judd (GatenbySanderson).

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd D Owens

**1 PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd N Hugh Jones yn cael ei benodi'n Gadeirydd.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd N Hugh Jones yn Gadeirydd.*

**2 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

**3 PENODI PENNAETH DYSGU A GWELLA A PHENNAETH PARTNERIAETH A CHYNHWYSIANT – LLUNIO RHESTR FER**

Esboniodd ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor i'r aelodau sut ymgymerwyd â'r broses recriwtio. Roedd yr Aelodau eisoes wedi derbyn curriculum vitae a gyflwynwyd gan y pedwar ymgeisydd am y swydd Dysgu a Gwella ac wyth a gyflwynwyd am y swydd Partneriaeth a Chynhwysiant. O'r rhestri hir cychwynnol hyn, roedd dau ymgeisydd a phum ymgeisydd wedi eu hadnabod fel rhai a allai fod yn addas i'w hystyried ymhellach ac roeddynt wedi cael cyfweliad rhagarweiniol ar gyfer y swyddi perthnasol. Darparwyd adroddiad ysgrifenedig ar bob ymgeisydd ynghyd â chrynodeb ac argymhelliad yn y cyfarfod.

Ystyriodd yr Aelodau haeddiannau'r saith cais.

***PENDERFYNWYD:***

*(a)* *mewn perthynas â'r swydd Dysgu a Gwella:-*

*(i)* *nad oes unrhyw ymgeisydd yn mynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar hyn o bryd;*

*(ii)* *bod y swyddogion yn ystyried ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod ar 22 Mai ar ragolygon cydweithredu gydag awdurdod arall i ddarparu'r lefel gwasanaeth sydd ei hangen*

*(iii)* *os nad yw agwedd gydweithredol yn bosibl, ail-hysbysebu'r swydd gan gynnwys atodiad marchnad*

*(iv)* *o ystyried, pa bynnag lwybr a ddilynwyd, y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Addysg yn ymddeol cyn llenwi'r swydd, dylid penodi rheolwr dros dro.*

*(b)* *mewn perthynas â'r swydd Partneriaeth a Chynhwysiant, bod ymgeiswyr 1, 2, 4, 7 a 9 yn mynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu.*

*(c)* *ar ôl casgliad y Ganolfan Asesu, bod y Panel yn cyfarfod eto am 5.00 p.m. ar ddydd Mawrth 22 Mai 2007 i adnabod yr ymgeiswyr hynny a oedd i fynd trwodd i gyfweliad terfynol am 9.30am ar ddydd Mercher 23 Mai 2007 a phenderfynu ar gwestiynau ac amserlen y cyfweliadau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 p.m.